# AILAROLYGIAD

**Ysgol Gyfun Aberaeron**
**Stryd y Fro**
**Aberaeron**
**Ceredigion**
**SA46 0DT**

**RHIF YR YSGOL: 6674042**

**DYDDIAD YR AROLYGIAD: Mai 2011**

Arolygwyd Ysgol Gyfun Aberaeron ym Mawrth 2010 a barnwyd bod angen gwelliant sylweddol arni. Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol, cynhaliodd Estyn arolygiad dilynol ym Mai 2011 yn canolbwyntio ar y materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad Adran 28.

## Canlyniad yr ailarolygiad

Bernir bod Ysgol Gyfun Aberaeron wedi gwneud cynnydd da o ran yr argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd yn yr arolygiad Adran 28 ym Mawrth 2010. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Mae cynnydd yn ôl pob argymhelliad wedi'i gyflwyno mewn pedair adran sy'n ymdrin â:

- safonau;
- ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth gwricwlaidd;
- gwella ansawdd; a
- rheolaeth.

Dyrannwyd yr argymhellion yn adroddiad yr arolygiad Adran 28 i'r pedair adran wahanol hyn ac mae cynnydd yn ôl pob un ohonynt yn cael ei ddisgrifio isod.

### Safonau

**A1 Gwella safonau academaidd disgyblion mewn Cymraeg iaith gyntaf ac addysg gorfforol yn CA3 ac mewn astudiaethau'r cyfryngau a chelf a dylunio yn CA4. Gwella safonau academaidd disgyblion yn sylweddol mewn mathemateg yn CA3 ac CA4.**

Mae safonau mewn celf ac astudiaethau'r cyfryngau yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella ac maent bellach yn dda. Mewn celf, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau'n dda ac maent yn barod i arbrofi er mwyn ychwanegu amrywiaeth at eu dyluniadau. Yn astudiaethau'r cyfryngau, mae disgyblion yn dangos gwybodaeth dda am dermau technegol a gallant farnu eu gwaith yn effeithiol yn ôl meini prawf llwyddiant priodol. Mewn addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran gwella'r ddarpariaeth, ac o ganlyniad i hynny, mae'r safonau'n dda. Mae disgyblion yn dangos medrau da mewn gwaith tîm, a medrau meddwl a datrys problemau.

Er bod gwelliant mewn addysgu'n dechrau codi safonau mewn mathemateg a Chymraeg, nid yw'r safonau'n ddigon da eto.

Mewn Cymraeg, mae'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda, yn mwynhau gwersi ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn siarad ac yn ysgrifennu'n rhugl, gan ddefnyddio geirfa helaeth ac arddull fywiog. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion, gan gynnwys rhai disgyblion mwy galluog, yn gwneud camgymeriadau sylfaenol yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft camgymeriadau sillafu, treigladau, cystrawen a ffurfiau berfau.

Mewn mathemateg, mae safonau disgyblion wedi gwella. Mae disgyblion yn canolbwyntio'n dda ac maent yn awyddus i ateb cwestiynau a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Yn gyffredinol, gwnânt gynnydd da mewn gwersi, gan ddangos gallu da i alw gwaith blaenorol i gof a pharodrwydd i ddatrys problemau. Mae profion asesu eisoes yn dangos safonau uwch yng nghyfnod allweddol 4 eleni. Fodd bynnag, mae ychydig ddisgyblion yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol, ac mae gafael wan gan leiafrif ohonynt ar rai rheolau sylfaenol o hyd. Weithiau, nid yw'r disgyblion mwyaf

galluog yn cael eu herio'n ddigonol.

**Ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth gwricwlaidd**

**A6 Gwella ansawdd yr addysgu'n sylweddol trwy gynyddu lefel y cyflymder a'r her mewn gwersi, gan ddileu'r diffygion a rhannu'r arfer dda a da iawn a nodwyd yn yr adroddiad Adran 28.**

**A11 Cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i'r holl ddysgwyr ddatblygu eu medrau dwyieithog ymhellach.**

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ansawdd yr addysgu. Roedd yr addysgu'n dda ymron pob gwers a arsylwyd, ac roedd yn ddigonol mewn rhai ohonynt. Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio gwersi'n dda ac yn esbonio'r meini prawf llwyddiant i ddisgyblion ar ddechrau'r wers. Mae'r gweithgareddau amrywiol yn herio disgyblion yn briodol ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gosod targedau amser defnyddiol i wella cyflymder y wers. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn modd dychmygus i ysgogi dysgu effeithiol.

Mewn mathemateg, mae'r addysgu wedi gwella ac mae'n dda mewn mwyafrif o wersi. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau penagored i ymestyn a chadarnhau dealltwriaeth disgyblion. Defnyddiant fyrddau gwyn rhyngweithiol yn dda i gynnig amrywiaeth, cyflymder a her. Maent yn cywiro camsyniadau'n effeithiol ac yn fedrus. Fodd bynnag, mae rhai diffygion yn parhau mewn lleiafrif o wersi, er enghraifft pan nad yw athrawon bob amser yn addasu gwaith yn ddigonol i fodloni anghenion ystod o ddisgyblion, nac yn cynnig digon o amrywiaeth yn y gweithgareddau. Weithiau, bydd y marcio'n arwynebol ac, er ei fod yn gefnogol, nid yw'n ddigon diagnostig.

Mae'r ysgol wedi dechrau gwella cyfleoedd i ddatblygu dwyieithrwydd. Mae adran y Gymraeg yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Mae rhai athrawon wedi mynd ar gyrsiau ar ddwyieithrwydd ac mae'r ysgol yn bwriadu cynnal cwrs i athrawon yn yr ysgol. Y flwyddyn nesaf, bydd y cwricwlwm hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i astudio rhai pynciau TGAU a Safon Uwch yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhai athrawon yn addysgu'n ddwyieithog yn fedrus ac yn effeithiol, ond ar hyn o bryd, nid yw'r medr i addysgu'n ddwyieithog yn ymestyn ar draws yr holl staff.

**Gwella ansawdd**

**A3 Sefydlu gweithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n gynhwysfawr ac yn systematig ac sy'n tynnu ar dystiolaeth uniongyrchol o safon.**

**A4 Sicrhau bod uwch reolwyr a rheolwyr canol:**

- **yn ymgymryd â menter asesu ar gyfer dysgu ar gyfer yr ysgol gyfan;**
- **yn monitro ansawdd yr addysgu, y marcio a safonau gwaith disgyblion yn drylwyr ac yn gyson yn rheolaidd; ac**

- **yn rhannu arfer dda er mwyn hyrwyddo nodweddion da a da iawn ar draws y cwricwlwm.**

**A5 Sicrhau bod y meysydd cyfrifoldeb strategol canlynol yn cael eu cydlynu a'u cyflawni'n effeithiol gan staff priodol:**

- **trafod ac arfarnu data;**
- **asesu a gosod targedau;**
- **medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4; ac**
- **addysgu a dysgu.**

Mae systemau cynhwysfawr a thrylwyr ar waith bellach i alluogi'r uwch dîm arwain a'r arweinwyr maes a sefydlwyd yn ddiweddar i fonitro safonau'n gyson ar draws yr ysgol. Mae meysydd cyfrifoldeb strategol pwysig bellach yn cael eu cydlynu a'u cyflawni'n effeithiol gan staff priodol.

Mae trefniadau monitro'n cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion a chynlluniau gwersi athrawon ynghyd ag arsylwi ar wersi. Cynhaliwyd arsylwadau ar nifer fawr o wersi'r holl athrawon ac maent bellach yn gyfarwydd ag ymweliadau mynych. Ar ôl cael eu harsylwi gan reolwyr, mae athrawon yn cael adroddiad cynhwysfawr sy'n eu helpu i ddatblygu eu medrau addysgu. Hefyd, mae cyfleoedd mynych i athrawon ymweld â gwersi athrawon eraill, ynghyd ag adroddiadau defnyddiol ar arfer dda gan yr uwch dîm arwain.

At ei gilydd, mae systemau monitro'n rhoi darlun clir i'r uwch dîm o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae lefel uchel y monitro eleni yn nodwedd dda, ac ynghyd â'r pwyslais ar ledaenu arfer dda, mae wedi cyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd addysgu.

Mae arweinwyr uwch ac arweinwyr canol wedi defnyddio data ar berfformiad yn llawer mwy effeithiol eleni. O ganlyniad, gallant weld yn glir pa feysydd y mae angen eu gwella, ac maent wedi blaenoriaethau'r rhain yn briodol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o anghysondeb o hyd yn y ffordd y mae arweinwyr pwnc yn defnyddio data. Mae llywodraethwyr hefyd yn fwy hyderus wrth ddadansoddi data er mwyn herio'r ysgol fel 'ffrindiau beirniadol'.

Mae'r ysgol wedi dechrau gwneud cynnydd o ran gwella asesu. Yn dilyn hyfforddiant priodol i athrawon yn gynharach eleni, mae llawer o athrawon yn defnyddio asesu ffurfiannol yn dda, ond nid yw'r arfer yn ddigon cyson eto. Mae mwyafrif o athrawon yn ysgrifennu sylwadau adeiladol am waith disgyblion, ond nid yw lleiafrif ohonynt bob amser yn tynnu digon o sylw at gamgymeriadau amlwg nac yn esbonio'n ddigon manwl i ddisgyblion sut y gallant wella ansawdd eu gwaith.

Mae'r ysgol wedi disgyn ymhell y tu ôl i ysgolion eraill o ran ei darpariaeth medrau allweddol. Tan yn ddiweddar, nid oedd adrannau wedi cynllunio sut i gynnwys medrau allweddol yn eu cynlluniau gwaith yn ddigon manwl a, hyd yn hyn, nid oes unrhyw

gyrsiau na chymwysterau medrau allweddol ar gael i unrhyw ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Bellach, mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Archwiliwyd rhai pynciau i nodi lle dylai pob un ohonynt gyfrannu at ddatblygu medrau ac mae cynllun datblygu medrau priodol ar gyfer yr ysgol gyfan. Mae disgyblion wedi cael taflen ddefnyddiol sy'n esbonio medrau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld mwy a mwy o gyfeiriad at fedrau mewn llawer o gynlluniau gwersi, ac mae rhai athrawon yn datblygu medrau'n dda. Yn ddiweddar, mae cydlynwyr llythrennedd a rhifedd wedi cael eu penodi i ddatblygu'r gwaith ymhellach.

Mae'r ysgol hefyd wedi cynllunio newidiadau i'r cwricwlwm a fydd yn cyfrannu at wella medrau allweddol. Y flwyddyn nesaf, bydd gwersi ychwanegol yn cael eu cynnwys yn yr amserlen ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg er mwyn helpu i godi safonau yn y pynciau hyn, gan felly wella llythrennedd a rhifedd hefyd.

**Rheolaeth**

**A2 Gwella effeithiolrwydd uwch reolwyr a rheolwyr canol trwy fireinio rolau'r uwch dîm rheoli a'r tîm rheoli canol. Sicrhau bod yr holl staff yn llwyr atebol i'r pennaeth a'r corff llywodraethol am eu cyfrifoldebau a'u gweithrediadau.**

**A7 Gwella gallu'r corff llywodraethol i fod yn ffrindiau beirniadol i'r ysgol trwy wella'u gweithdrefnau monitro a dal rheolwyr yn atebol yn fwy effeithiol.**

**A8 Ar lefel ysgol gyfan a lefel adrannol, paratoi cynlluniau datblygu sydd â ffocws clir, targedau heriol, a chyswllt sydd â ffocws mwy pendant rhwng penderfyniadau cyllidebol a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu, a meini prawf llwyddiant sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ar bob lefel o reolaeth.**

**A9 Rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith i fonitro'r defnydd ar adnoddau'r ysgol i sicrhau mwy o werth am arian.**

**A10 Sicrhau bod yr holl aelodau staff nad ydynt yn staff addysgu yn cymryd rhan yn llawn yn y cylch blynyddol o reoli perfformiad.**

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Mae strwythur y gweithlu a'r strwythur rheoli wedi cael eu hailfodelu'n llwyddiannus er mwyn defnyddio staff yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn deall eu rolau yn y strwythur rheoli diwygiedig yn dda ac mae llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd yn glir ar bob lefel. Mae llawer o uwch reolwyr a rheolwyr canol yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at wella darpariaeth a safonau. Fodd bynnag, nid yw ychydig o reolwyr yn cael digon o effaith.

Mae llywodraethwyr yn meddu ar wybodaeth fanwl a phriodol am berfformiad a chynnydd yr ysgol, ac maent yn llawer mwy hyderus wrth ddadansoddi data i herio'r ysgol. Mae llywodraethwyr unigol wedi sefydlu cysylltiadau buddiol â phynciau unigol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r pynciau hyn a'r meysydd i'w

gwella. Mae llywodraethwyr yn gweithredu'n well fel 'ffrindiau beirniadol' ac maent yn monitro effaith strategaethau i wella safonau a darpariaeth.

Mae'r holl staff yn cymryd rhan mewn hunanarfarnu. Mae adroddiadau hunanarfarnu ysgol gyfan ac adroddiadau hunanarfarnu pwnc yn arwain at gynlluniau gwella manwl a phriodol sydd wedi dechrau mynd i'r afael â nifer o wendidau yn llwyddiannus. Mae llywodraethwyr ac uwch reolwyr yn monitro cynnydd y cynlluniau hyn yn drylwyr.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n ddiwyd i fonitro'r defnydd ar adnoddau. O ganlyniad i gydweithio agosach gydag ysgolion uwchradd eraill, mae'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn well ac yn fwy cost-effeithiol.

Mae'r holl aelodau staff nad ydynt yn staff addysgu bellach yn atebol i reolwyr ac yn cymryd rhan yn llawn yn y cylch rheoli perfformiad.

**Argymhellion**

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r ysgol:

A1 wella safonau mewn mathemateg, Cymraeg, dwyieithrwydd a medrau allweddol;

A2 gwella cysondeb yr addysgu a'r dysgu;

A3 sicrhau bod yr holl reolwyr yn defnyddio data'n effeithiol; a

A4 mireinio'r strwythur rheoli fel bod yr holl uwch reolwyr yn gwella safonau a darpariaeth yn effeithiol.